# Diogelwch Gwirfoddoli – Gwybodaeth i sefydliadau

Mae diogelwch yn hollbwysig i bawb sydd ynghlwm â gwirfoddoli. Er bod rolau gwirfoddoli a'r mathau o sefydliadau yn amrywio'n fawr, mae gan bob sefydliad ddyletswydd gofal i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant unrhyw un sy'n delio â'r sefydliad. Mae'r daflen wybodaeth hon yn amlygu rhai o'r ystyriaethau allweddol y mae angen i sefydliadau feddwl amdanynt, ac mae'n darparu dolenni i ganllawiau a thempledi mwy manwl a fydd yn helpu eich sefydliad i ddatblygu a gweithredu'r holl bolisïau a gweithdrefnau sy'n ofynnol i gadw gwirfoddoli yn ddiogel. Cynghorir yn gryf i sefydliadau sy'n newydd i wirfoddoli, gysylltu â'u Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol lleol am gyngor.

## Rhai cwestiynau diogelwch pwysig:

### A oes gennych yswiriant addas yn ei le?

Mae'n hanfodol er diogelwch eich sefydliad, ei weithwyr a'i wirfoddolwyr, fod eich yswiriant yn gwarchod eich rolau gwirfoddoli.

### Sut ydych yn gwybod bod gennych y bobl iawn ar gyfer y rôl wirfoddoli?

Os yw'r rôl yn gofyn am brofiad blaenorol neu sgiliau penodol, bydd angen i chi gael proses sgrinio ddigonol ar waith. A yw'r rôl yn gofyn am wiriadau cefndir megis DBS neu eirdaon?

### A yw'r hyfforddiant yn cwmpasu popeth sy'n ofynnol yn y rôl?

Rhaid i hyfforddiant arfogi'r gwirfoddolwr yn llawn i gynnal y rôl yn ddiogel ac effeithiol. Gall gynnwys ymhlith pethau eraill: Diogelu, Cyfrinachedd, a Sgiliau Cyfathrebu yn ogystal â hyfforddiant yn benodol i'r rôl.

Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Mawrth 2021, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth yn y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

**A oes gennych y polisïau a'r gweithdrefnau ar waith?**

Mae'r rhain yn debygol o gynnwys Asesiadau Risg, Polisi Iechyd a Diogelwch, Polisi Cyfrinachedd, Polisi Diogelu Data, Polisi Gwirfoddoli a Gweithdrefnau Adrodd ymhlith eraill. Bydd pob un o'r rhain yn helpu i sicrhau diogelwch ym mhob agwedd ar wirfoddoli ac yn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r arferion gorau mewn gweithgareddau gwirfoddoli.

**A oes gennych systemau cofnodi ac adolygu digonol ar waith?**

Mae cofnodi gweithgareddau gwirfoddoli a sesiynau adolygu a goruchwylio yn hanfodol i sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt, i ddatblygu a gwella'r rôl a sicrhau bod yr holl weithgarwch yn cael ei gofnodi yn gywir. Mae hyn yn helpu i ddiogelu'r sefydliad a'r gwirfoddolwr pe bai unrhyw gwynion/honiadau yn cael eu gwneud yn y dyfodol. Mae cofnodi cywir hefyd yn bwysig os oes angen adrodd am bryder diogelu.



Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Mawrth 2021, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth yn y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

## Dolenni Defnyddiol

Mae'r dolenni isod yn darparu ystod o becynnau cymorth, cyngor ac adnoddau i'ch helpu i sicrhau bod eich gweithgareddau gwirfoddoli mor ddiogel â phosib ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth bresennol ac arferion gorau.

- **Volunteering Matters** – Canllawiau a thempledi amrywiol yn cynnwys rheoli risg Covid-19.
- **Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan** – Gwybodaeth hanfodol i bob sefydliad sy'n gweithio gyda Phlant ac Oedolion mewn Perygl.
- **Canllaw TSSW ar gyfer cadw gwirfoddolwyr yn ddiogel** – Yn cynnwys sut mae Asesu Risg gweithgareddau gwirfoddoli.
- **Pecyn cymorth risg NCVO** – Fideos, hunanasesiadau ac adnoddau (cofrestru yn ofynnol).
- **Comisiwn Elusennau** – Canllaw Rheoli Risg Cynhwysfawr i Elusennau.
- **Gwybodaeth DBS y Llywodraeth** – Canllaw i wiriadau DBS.

## Cysylltiadau lleol

Bydd eich Cyngor Gwirfoddol Sirol yn gallu eich cefnogi a chynghori ar sut mae sicrhau bod eich safonau diogelwch gwirfoddoli mor uchel â phosib.

**Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe (SCVS)**

**01792 544006**
**www.scvs.org.uk**

**Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot (NPTCVS)**

**01639 631246**
**www.nptcvs.org.uk**

Ymwadiad: Datblygwyd yr wybodaeth hon ym mis Mawrth 2021, felly byddwch yn ymwybodol y gall yr wybodaeth a'r dolenni ddyddio'n hawdd. Fel canllaw yn unig mae'r wybodaeth yn y daflen hon wedi'i bwriadu. Nid yw'n cymryd lle cyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled a oddefir o ganlyniad i unrhyw berson yn gweithredu neu'n ymwrthod rhag gweithredu arni.

Prosiect amlasiantaethol yw

**Cymorth Gwirfoddoli Gorllewin Morgannwg**

sy'n creu adnoddau a rennir i ddatblygu gwybodaeth gwirfoddolwyra sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a'r gwaith o'u rheoli a chydlynu ar draws ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Ariennir gan Gronfa Adfer Gwirfoddoli Llywodraeth Cymru.

**Partneriaid y prosiect yw:**

Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyngor Abertawe, Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe a Phartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg.

**Am ragor o wybodaeth, ewch i:**

**www.westglamorgan.org.uk/wgvs**